



2<sup>il</sup> Gynllun Datblygu  
Lleol Newydd Bwrdeistref  
Sirol Caerffili hyd at 2035

# PS10 Crynodeb o'r Aseiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol

*Hydref 2022*

This document is available in English,  
and in other languages and formats on request.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg, ac  
mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.

**Tabl Cynnwys**

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad.....</b>	<b>3</b>
<b>2.</b>	<b>Canlyniadau Aseiad Cam 1 .....</b>	<b>4</b>
<b>3.</b>	<b>Aseidiadau Cam 2 .....</b>	<b>8</b>
<b>4.</b>	<b>Camau nesaf yr asesu .....</b>	<b>19</b>
<b>5.</b>	<b>Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol.....</b>	<b>20</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Fel rhan o broses yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLIA), gwahoddodd y Cyngor bartïon sydd â diddordeb (datblygwyr a thirfeddianwyr) i nodi safleoedd ar gyfer cynhwysiant posibl fel dyraniadau o fewn y cynllun. Gelwir y broses hon yn alwad am safleoedd ymgeisiol. Cyhoeddwyd ffurflenni cyflwyno safleoedd ymgeisiol, nodiadau canllaw a phapur methodoleg safleoedd ymgeisiol ym mis Ionawr 2021. Ond ni ddechreuodd yr alwad ffurfiol am safleoedd ymgeisiol tan y 1af Gorffennaf 2021, ar ôl i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni. Cynhaliwyd yr alwad ffurfiol am safleoedd dros 8 wythnos rhwng y 1af Gorffennaf 2021 a'r 31ain Awst 2021. Cyflwynwyd 144 o safleoedd yn ystod y cyfnod hwn ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys tai, cyflogaeth, addysg, twristiaeth, ynni adnewyddadwy a diwygiadau i'r ffin aneddiadau.
- 1.2 Ar ôl cwblhau'r alwad am safleoedd, cyhoeddwyd Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol, a oedd yn categoreiddio'r safleoedd o dan un o bum maes Uwchgynllun:
- Basn Caerffili (CB)
  - Coed Duon Fwyaf (GB)
  - Blaenau'r Cymoedd (HOV)
  - Cymoedd Ebwy a Sirhywi Isaf (a gyfeiriwyd gynt fel Coridor Rhisga - Trecelyn) (RNC)
  - Ystrad Mynach (YM)
- 1.3 Mae'r safleoedd a restrir yng Nghofrestr Safleoedd Ymgeisiol wedi bod yn destun aseiad manwl, yn dilyn y weithdrefn a nodir o fewn y Papur Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol: [https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/LDP/Candidate-Site-Methodology\\_cy.aspx](https://www.caerphilly.gov.uk/CaerphillyDocs/LDP/Candidate-Site-Methodology_cy.aspx)
- 1.4 Mae'r Aseiad Cychwynnol Drafft hwn yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r broses asesu hyd yma ac yn nodi camau nesaf y broses.

## 2. Canlyniadau Aseiad Cam 1

- 2.1 Cam cyntaf y broses asesu safle ymgeiswyr oedd ymarfer hidlo cychwynnol, a oedd yn ystyried:
- Maint y safle;
  - Perthynas â'r anheddiad presennol
  - Gwrthdaro â pholisi cynllunio cenedlaethol – perygl llifogydd neu ardaloedd o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth
- 2.2 Yn unol â Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol, aseswyd safleoedd bach (o dan 0.5 hectar ar gyfer tai neu 1 hectar ar gyfer defnydd tir eraill) er mwyn penderfynu sut maen nhw'n ymwneud â'r anheddiad presennol. Os yw safle bychan o fewn yr anheddiad presennol, byddai'r egwyddor o ddatblygu yn dderbyniol, yn amodol ar y safle yn bodloni'r holl ystyriaethau cynllunio eraill, ac nid oedd aseiad pellach wedi cael ei wneud.
- 2.3 Os yw safle'n fach ond yn ffinio â setliad presennol, caiff y safle hwn ei ystyried fel rhan o'r adolygiad ffiniau anheddu, a fydd yn cael ei gynnal fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Amnewid Adneuo.
- 2.4 Mae safleoedd sydd dros drothwy maint safle, ond sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd sy'n cael eu diffinio fel cefn gwlad agored, wedi'u diystyru ar hyn o bryd. Mae polisi cynllunio cenedlaethol, fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11) yn glir y dylid rheoli'n llym datblygiadau yng nghefn gwlad i ffwrdd o aneddiadau presennol, ac y dylid rheoli datblygiad o'r fath yn yr aneddiadau hynny, ac yn gyfagos iddynt, lle y gellir rhoi lle iddo orau o ran isadeiledd, mynediad a chadwraeth cynefinoedd a thirwedd. Ni fydd safleoedd sy'n cael eu hystyried fel 'datblygiad yng nghefn gwlad' yn cael eu hystyried ymhellach.
- 2.5 Mae Tabl 1 yn rhestru'r safleoedd hynny sydd heb gwrdd â'r aseiad cam 1, a'r rhesymau dros hynny.

**Table 1: Safleoedd wedi'u diystyru ar ôl Asesiad Cam 1**

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig</b>	<b>Arwynebedd y Safle (hectarau)</b>	<b>Rheswm</b>
<b>CB003</b>	Tir yn The Oaks, Rhydri	Tai	0.37	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>CB007</b>	Tir yn Starbuck Street, Rhydri	Tai	0.24	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>CB008</b>	Tir yn Ty Nula, Rhydri	Tai	1.07	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>CB015</b>	Tir ffermio Ty Isaf (Safle 2), Caerffili	Tai	0.12	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>CB019</b>	Tir i'r gorllewin o Mill Close, Caerffili	Tai	0.22	Safle bach o fewn ffin anheddiad presennol - mae datblygiad yn y lleoliad hwn yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar fodloni ystyriaethau cynllunio eraill.
<b>CB021</b>	Tir i'r gorllewin o Heol Pwll Glo, Llanbradach	Tai / Twristiaeth	0.31	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>GB005</b>	Tir yn Gwrhay, Argoed	Tai	0.50	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>GB014</b>	Tir yn agos i Summerfield Hall Lane, Gelli-haf	Tai	0.43	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>GB018</b>	Tir yn St David's Avenue, Coed Duon	Tai	0.15	Safle bach o fewn ffin anheddiad presennol - mae datblygiad yn y lleoliad hwn yn dderbyniol mewn egwyddor, yn amodol ar fodloni ystyriaethau cynllunio eraill.

Cyfeirnod safle	Enw'r safle	Defnydd arfaethedig	Arwynebedd y Safle (hectarau)	Rheswm
<b>GB020</b>	1 Fferm Pentref-y-groes, Croespenmaen	Masnachol	0.42	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>GB024</b>	Glofa Tir Philkins, Maes-y-coed	Tai	1.80	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>GB027</b>	Briery House, Aberbig, Abertyleri	Tai	1.19	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>HOV001</b>	Tir yn gyfagos i McLaren Cottages, Abertyswg	Tai	11.40	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>HOV003</b>	Tir i'r de o Springfield Terrace, Llwyncelyn	Adolygiad o ffin anheddiad	0.08	Mae cynigydd safle yn gofyn am ystyriaeth o'r safle fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>HOV011</b>	Tir i'r dwyrain o'r A4048, Llwyncelyn	Adolygiad o ffin anheddiad	0.63	Mae cynigydd safle yn gofyn am ystyriaeth o'r safle fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>HOV012</b>	Tir yn Heol Pen-rhiw'r-Eglwys, Bedwellte	Tai	1.30	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>HOV014</b>	Tir i'r de o Hillside Park, Gilfach	Tai	0.59	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>HOV021</b>	Tir yn agos i Manmoel Road, Man-moel	Tai	0.29	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>RNC001</b>	Tir yn 66 Llanfach Road, Abercarn	Adolygiad o ffin anheddiad	0.03	Mae cynigydd safle yn gofyn am ystyriaeth o'r safle fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>RNC003</b>	Tir rhwng Twyn-gwyn Road a Mount Pleasant, Ynys-ddu	Tai / Twristiaeth	0.42	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>RNC007</b>	Tir yn Inn on the Park, Field's Park, Trecelyn	Tai	0.29	Datblygiad yng nghefn gwlad - nid yw'n cwrdd â'r polisi cynllunio cenedlaethol.
<b>RNC009</b>	Tir i'r gogledd o Ramping Road, Cwmcarn	Adolygiad o ffin anheddiad	0.85	Mae cynigydd safle yn gofyn am ystyriaeth o'r safle fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.

Cyfeirnod safle	Enw'r safle	Defnydd arfaethedig	Arwynebedd y Safle (hectarau)	Rheswm
<b>RNC010</b>	Tir i'r gogledd o Tribute Avenue, Cwmcarn	Adolygiad o ffin anheddiad	5.70	Mae cynigydd safle yn gofyn am ystyriaeth o'r safle fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>RNC015</b>	Tir wrth y llwybr beicio, Wyllie	Tai	0.02	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>RNC024</b>	Tir wrth ymyl Canolfan Hamdden Rhisga, Rhisga	Adolygiad o ffin anheddiad	8.90	Mae cynigydd safle yn gofyn am ystyriaeth o'r safle fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.
<b>YM004</b>	Tir yn gyfagos i 18 Haulwen Road, Penpedairheol	Tai	0.30	Islaw trothwy maint y safle. Angen ei ystyried fel rhan o adolygiad ffiniau'r anheddiad.



### 3. Asesiadau Cam 2

- 3.1 Roedd safleoedd a basiodd Gam 1 o'r asesiad yn destun asesiad manwl, drwy ymgynghori ag adrannau mewnol amrywiol y Cyngor. Mae asesiad y safle yn defnyddio system sgorio goleuadau traffig, gyda sgôr gwyrdd, ambr neu goch yn cael ei chymhwysu mewn perthynas â phob cwestiwn, yn dibynnu ar lefel y cyfyngiadau. Mae'r fethodoleg a'r sgorio ar gyfer pob cwestiwn yn cael ei esbonio yn y Papur Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol.
- 3.2 Yn seiliedig ar natur a graddfa'r cyfyngiadau a nodwyd drwy'r sgorio, gwnaed penderfyniad cychwynnol ynghylch addasrwydd safle i'w ystyried ymhellach drwy'r broses. Mae rhai safleoedd lle gall natur y cyfyngiadau olygu rhan o safle na ellir ei ddatblygu, ond gall graddau llai fod yn fwy priodol. Yn yr achosion hyn, bydd y safle'n cael ei ystyried ymhellach, ond gellir diwygio ffin y safle go iawn yn y cyfnod Adneuo er mwyn eithrio unrhyw ardaloedd o gyfyngiadau sylweddol. Lle mae safle wedi'i ddiystyru, mae'r prif reswm/rhesymau wedi'u crynhoi yn Nhabl 3.
- 3.3 Mae safleoedd hefyd wedi cael eu hasesu i benderfynu ar eu cydymffurfiaeth â'r Strategaeth Ddewsiol, sy'n ceisio targedu'r gwaith datblygu tuag at y gorsafoedd rheilffyrdd a bysiau ledled y Fwrdeistref Sirol (Polisiâu Cymru'r Dyfodol 12 a 36), a thuag at y Prif Ganolfannau a'r Canolfannau Lleol (Polisi 6 Cymru'r Dyfodol). Mae Papur Sylfaen Tystiolaeth PS3, Dadansoddiad Swyddogaethol o Aneddiadau yn y Fwrdeistref Sirol, yn nodi'r fethodoleg ar gyfer asesu cynaliadwyedd lleoliadol a darparu gwasanaethau ac yn nodi pa aneddiadau sydd wedi'u lleoli orau i fodloni'r elfennau hyn o'r strategaeth.
- 3.4 Canfuwyd bod y mwyafrif o safleoedd yn y Fwrdeistref Sirol wedi'u lleoli o fewn pellter cerdded neu feicio 20 munud o nod trafndiaeth a chanol y dref ac felly maent yn cydymffurfio'n fras â'r elfen allweddol hon o'r strategaeth. Fel rhan o gam nesaf y broses, bydd y safleoedd hynny y bernir eu bod yn addas ar gyfer ystyriaeth bellach yn cael eu sgorio i benderfynu pa rai sydd fwyaf perthnasol o ran pellter i ganol trefi a nodau trafndiaeth a bydd y sgôr hwn yn cael ei ddefnyddio i helpu i lywio pa safleoedd a fydd yn cael eu dyrannu yn y Cynllun Adneuo.
- 3.5 Mae'r Strategaeth Ddewisol hefyd yn nodi y dylid dyrannu safle strategol ym Mharc Gwernau, Maesycwmmer. Dyma'r unig safle sy'n cael ei nodi gyda'r ddogfen Strategaeth Ddewsiol.
- 3.6 Mae yna dri safle hefyd, pob un ym Masn Caerffili, lle'r oedd y defnydd gafodd ei gynnig gan gynigydd y safleoedd ar gyfer tai, ond mae asesiad o'r safleoedd wedi nodi y byddai'r safleoedd yn fwy addas ar gyfer defnydd cyflogaeth.
- 3.7 Mae Tabl 2 yn nodi'r safleoedd hynny sy'n cael eu hystyried yn addas i'w hystyried ymhellach **ar hyn o bryd**. Bydd angen rhagor o wybodaeth i ddangos bod safleoedd yn hyfyw ac yn bosib eu darparu cyn i'r safleoedd gael eu dyrannu yn yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Amnewid, fel yr amlinellir yn yr adran nesaf.

**Table 2: Safleoedd sy'n cael eu hystyried yn addas i'w hystyried ymhellach**

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Defnydd Dewisol Swyddogion</b>	<b>Arwynebedd y Safle (hectarau)</b>	<b>Nifer dangosol o aneddiadau</b>	<b>Defnyddiau tir eraill (hectarau)</b>
<b>GB022</b>	Tir yn Parc Gwernau, Maes-y-cwmwr	Defnydd cymysg	Safle strategol	213.18	2,700 (1,200 yng nghyfnod y cynllun)	
<b>CB006</b>	Gwaun Gledyr, Caerffili	Tai	Cyflogaeth	8.89		8.89 Ha
<b>CB010</b>	Fferm Welsh Egg, Caerffili	Tai	Tai	1.00	31	
<b>CB012</b>	Glofa Windsor, Abertridwr	Tai	Tai	5.51	153	
<b>CB017</b>	Tir yn Pandy Road, Cam 2, Bedwas	Tai	Tai	1.65	45	
<b>CB018</b>	Tir yn Watford Road, Caerffili	Tai	Tai	1.03	14	
<b>CB023</b>	Tir i'r de o Rudry Road, Caerffili	Tai	Cyflogaeth	21.88		7.8 Ha
<b>CB025</b>	Fferm Nant-y-Calch (Opsiw'n A), Caerffili	Tai	Tai	1.47	49	
<b>CB027</b>	Tir ger Plasty'r Fan, Caerffili	Tai	Cyflogaeth	18.68		2.7 Ha
<b>CB028</b>	Tir i'r dwyrain o Railway Terrace, Caerffili	Tai a hamdden	Tai a hamdden	10.36	190	
<b>CB030</b>	Tir i'r gogledd o James Street, Tretomos	Tai	Tai	1.08	17	
<b>CB031</b>	Tir yng Nglofa Bedwas, Bedwas	Defnydd cymysg (gan gynnwys tai)	Defnydd cymysg (gan gynnwys tai)	24.65	tbc	
<b>GB004</b>	Tir i'r gorllewin o Seda, Hawtin Park	Addysg	Addysg	5.81		5.81 Ha
<b>GB008</b>	Tir yn Ty Mawr, Croespenmaen	Tai	Tai	2.00	42	
<b>GB010</b>	Tir yn Nant-Gau, Oakdale	Tai	Tai	0.90	20	
<b>GB012</b>	Tir yn Heol y Cefn, Coed Duon	Tai	Tai	9.72	300	

Crynodeb o'r Asesiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol  
Medi 2022

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Defnydd Dewisol Swyddogion</b>	<b>Arwynebedd y Safle (hectarau)</b>	<b>Nifer dangosol o aneddiadau</b>	<b>Defnyddiau tir eraill (hectarau)</b>
<b>GB017</b>	Caeau Pen-rhiw, i'r gogledd o'r Goedlan Ganolog, Oakdale	Tai	Tai	1.91	100	
<b>GB021</b>	Hen Ystad Ddiwydiannol Gellideg, Maes-y-cwmwr	Tai	Tai	6.02	165	
<b>GB023</b>	Fferm Pant-ysgawen, Croespenmaen	Tai	Tai	1.15	95	
<b>GB028</b>	Hen Ysgol Gyfun Pontllan-fraith a'r meysydd chwarae, Pontllan-fraith	Tai	Tai	5.40	190	
<b>GB030</b>	Tir yn Fferm Cwmgelli, Coed Duon	Tai	Tai	7.69	175	
<b>HOV002</b>	Tir yng Nglofa Markham, Markham	Ynni gwyrdd	Ynni gwyrdd	5.18		5.18 Ha
<b>HOV006</b>	Tir yn Coed-y-Brain House (safle 2),Aberbargod	Tai	Tai	1.80	54	
<b>HOV008</b>	Tir i'r gogledd o Glan-y-Nant, Rhymni	Addysg	Addysg	5.7		5.7 Ha
<b>HOV015</b>	Tir yn Ystad y Parc, Bargod	Tai	Tai	1.51	53	
<b>HOV016</b>	Tir gyferbyn a Heolddu Grove,Bargod	Tai	Tai	1.59	55	
<b>HOV018</b>	Tir i'r de o Greensway, Abertyswg	Tai	Tai	1.10	28	
<b>HOV019</b>	Llwyfandir Aberbargod, Aberbargod	Tai, hamdden ac addysg	Tai, hamdden ac addysg	13.97	100	
<b>HOV020</b>	Hen safle Aldi, Rhymni	Tai	Tai	1.05	23	
<b>RNC004</b>	Tir yn Sofrydd Road, Hafodyrynys	Tai	Tai	1.15	36	

Crynodeb o'r Asesiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol  
Medi 2022

Cyfeirnod safle	Enw'r safle	Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol	Defnydd Dewisol Swyddogion	Arwynebedd y Safle (hectarau)	Nifer dangosol o aneddiadau	Defnyddiau tir eraill (hectarau)
<b>RNC005</b>	Hen Ysgol Uwchradd Cwmcarn, Cwmcarn	Addysg	Addysg	9.22		9.22 Ha
<b>RNC008</b>	Tir i'r gorllewin o Albertina Road, Trecelyn	Tai	Tai	7.95	130	
<b>RNC011</b>	Fferm Penyfan, Risca Road (Safle 1), Rhisga	Tai	Tai	6.28	186	
<b>RNC018</b>	Tir i'r gogledd o Heol y Celyn, Rhisga	Tai	Tai	1.69	50	
<b>RNC023</b>	Safle Gwasanaeth y Cyngor, Brookland Road, Rhisga	Tai	Tai	0.53	29	
<b>RNC025</b>	Tir yn Elm Drive, Pont-y-mister	Tai	Tai	4.29	132	
<b>RNC028</b>	Tir yn Pen-y-Cwarel Road, Wyllie	Tai	Tai	0.76	10	
<b>YM005</b>	Depo DCWW, Pentwyn Road, Nelson	Tai	Tai	3.60	126	
<b>YM009</b>	Tir yn agos i Heol y Twyn, Ystrad Mynach	Defnydd cymysg (A3/B1/C1/SG)	Defnydd cymysg	0.81		0.81
<b>YM011</b>	Tir i'r gogledd o'r A472, Tredomen	Cyflogaeth	Cyflogaeth	4.25		4.25
<b>YM012</b>	Tir i'r de o'r A472, Tredomen	Defnydd cymysg (Tai / Cyflogaeth)	Tai	16.30	400	
<b>YM013</b>	Tir yn Glyngaer Road, Penpedairheol	Tai	Tai	2.00	38	
<b>YM015</b>	Tir i'r gogledd a'r dwyrain o Gefn Hengoed, Cefn Hengoed	Tai	Tai	7.82	205	
<b>YM017</b>	Tir yn Fferm Cefn Llwynau, Penallta Road, Pen-y-bryn	Tai	Tai	9.34	200	
<b>YM020</b>	Tir yn Myrtle Grove, Hengoed	Tai	Tai	0.51	17	

Crynodeb o'r Asesiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol  
Medi 2022

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Defnydd Dewisol Swyddogion</b>	<b>Arwynebedd y Safle (hectarau)</b>	<b>Nifer dangosol o aneddiadau</b>	<b>Defnyddiau tir eraill (hectarau)</b>
<b>YM023</b>	Tir i'r de o Kestrel View, Hengoed	Tai	Tai	0.53	18	
<b>YM026</b>	Tir yn Fferm Ty Du, Nelson	Masnachol a thai	Masnachol a thai	6.02	150	
<b>YM027</b>	Tir yn gyfagos i Fferm Tir y Berth, Heol Hengoed, Penpedairheol	Tai	Tai	3.59	130	
<b>YM028</b>	Tir yn Fferm Tir Jack, Penpedairheol	Tai	Tai	1.49	45	
<b>YM029</b>	Partmart Automotive Recycling, Sparesworld a Kalen Bungalow, Tir-y-berth	Tai	Tai	3.88	150	

- 3.8 Er mwyn osgoi cyfrif dwbl o unedau, mae sawl safle wedi'u nodi fel rhai nad ydynt yn addas ar gyfer y broses asesu safleoedd ymgeisiol oherwydd eu bod eisoes wedi cael caniatâd cynllunio ac wedi'u cynnwys yn y cyflenwad ymrwymedig. Nodir y safleoedd hyn yn Nhabl 3. Lle gwnaed mwy nag un cyflwyniad ar gyfer yr un safle, yn aml gyda ffiniau gwahanol, dim ond un o'r safleoedd sydd wedi'i nodi fel un sy'n addas i'w ystyried ymhellach, er mwyn osgoi dyblygu.
- 3.9 Mae Tabl 3 yn nodi'r safleoedd na chaiff eu hystyried yn addas i'w hystyried ymhellach ar hyn o bryd a chrynodeb o'r rheswm/rhesymau dros hyn. Cynhwysir crynodeb manylach o'r sgoriau ar gyfer pob cwestiwn yn Atodiad 1. Mae profforma manwl ar gyfer pob safle, sy'n rhoi gwybodaeth bellach yn cyfiawnhau'r sgoriau ar gyfer pob safle a'r casgliad cyffredinol wedi'i baratoi ac ar gael ar gais.

**Table 3: Safleoedd nad ydynt yn addas i'w hystyried ymhellach**

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Ardal y Safle</b>	<b>Cyfiawnhad o ran dim ystyriaeth bellach</b>
<b>CB001</b>	Tir i'r de o Cefn Ilan, Abertridwr	Tai	1.97	Mynediad, ecoleg
<b>CB002</b>	Ness Tar, Caerffili	Tai / Defnydd cymysg	6.60	Safle dyblyg - Gweler CB028
<b>CB004</b>	Tir yn Eneu'r-glyn, Caerffili	Tai	1.67	Ecoleg
<b>CB005</b>	Catnic, Caerffili	Tai	4.77	Eisoes wedi'i gynnwys yn y cyflenwad sydd wedi'i ymrwymo
<b>CB009</b>	Tir yn Lower Brynhyfryd Terrace, Senghenydd	Tai	0.40	Ecoleg
<b>CB011</b>	Tir yn Heol Pwll Glo, Llanbradach	Tai	2.28	Perthynas wael â'r anheddiad, mynediad, ecoleg
<b>CB013</b>	Tir yn Pandy-mawr Road, Bedwas	Tai	1.22	Mynediad (gwrthodwyd caniatâd cynllunio'n ddiweddar)
<b>CB014</b>	Tir ffermio Ty Isaf (Safle 1), Caerffili	Tai	0.60	Ecoleg
<b>CB016</b>	Hen Waith Tunplat, Ty'n-y-coed-cae	Tai	4.01	Ecoleg, Gorchmynion Cadw Coed, perygl llifogydd (rhan)
<b>CB020</b>	Tir i'r de o Westhaven, Parc Watford, Caerffili	Tai / Twristiaeth	3.37	Ecoleg, tirwedd
<b>CB022</b>	Gwern Y Domen, Caerffili	Tai	28.20	Ecoleg, tirwedd
<b>CB024</b>	Tir yn Porset Row, Caerffili	Tai	1.63	Ecoleg
<b>CB026</b>	Garth View, Bedwas, Caerffili	Tai	0.68	Ecoleg, mynediad
<b>CB029</b>	Tir i'r dwyrain o School Street, Llanbradach	Tai	1.34	Mynediad
<b>CB032</b>	Fferm Nant-y-Calch (Opsiw'n B), Caerffili	Tai	5.59	Ecoleg
<b>CB033</b>	Fferm Nant-y-Calch (Opsiw'n C), Caerffili	Tai	14.47	Ecoleg

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Ardal y Safle</b>	<b>Cyfiawnhad o ran dim ystyriaeth bellach</b>
<b>CB034</b>	Fferm Gelli Wastad, Newport Road, Machen	Tai a phŵer dŵr cynaliadwy		Perygl llifogydd Ecoleg, Gorchmynion Cadw Coed
<b>CB035</b>	Tir i'r de o Sanny Bank Terrace, Machen	Tai	0.92	Effaith posib ar adfer rheilffordd
<b>GB001</b>	T+L96:M138ir ac adeiladau garej i'r gogledd o Main Road, Maes-y-cwmwr	Tai	1.30	Mynediad, lletem las
<b>GB002</b>	Tir yn ffinio Old Junction House, Pontllanfraith	Tai	0.79	Ecoleg
<b>GB003</b>	Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Trinant	Tai	1.20	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>GB006</b>	Tir yn Oakdale Terrace, Oakdale	Tai	6.50	Mynediad, ecoleg
<b>GB009</b>	Tir yn y Gellideg, Maes-y-cwmwr	Tai	6.00	Safle dyblyg - ystyriwch fel rhan o GB022
<b>GB011</b>	Tir yn Uchderau Gellideg, Maes-y-cwmwr	Tai	2.80	Safle dyblyg - ystyriwch fel rhan o GB022
<b>GB013</b>	Tir i'r dwyrain o Glwb Golff Oakdale, Oakdale	Tai	17.64	Ecoleg
<b>GB015</b>	Iard sborion Trelyn, Pengam	Defnydd cymysg (Tai / Masnachol)	2.74	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Gorchmynion Cadw Coed)
<b>GB016</b>	Tir yn Parcffordd, Pen-y-fan, Croespenmaen	Tai	0.92	Gwrthodwyd caniatâd cynllunio yn ddiweddar, sŵn, gofyniad o ran cyflogaeth
<b>GB019</b>	1 Fferm Pentref-y-groes, Croespenmaen	Masnachol	8.13	Ecoleg
<b>GB025</b>	Tir i'r de o Heol y Dderwen, Coed Duon	Tai	1.16	Ecoleg, lletem las
<b>GB026</b>	Tir i'r dwyrain o Heol y Dderwen, Coed Duon	Tai	0.98	Ecoleg
<b>GB029</b>	Hen Ysgol Gyfun Oakdale, Oakdale	Tai	4.05	Eisoes wedi'i gynnwys yn y cyflenwad sydd wedi'i ymrwymo



Crynodeb o'r Asesiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol  
Medi 2022

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Ardal y Safle</b>	<b>Cyfiawnhad o ran dim ystyriaeth bellach</b>
<b>GB031</b>	Tir yn agos i Woodfield Park Lane, Maes-y-coed	Tai	0.82	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>GB032</b>	Tir yn Pen-rhiw Bengi Lane, Oakdale	Tai	2.19	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>GB033</b>	Tir yn Fferm Pencoed Fawr, yn agos i Beaumaris Way, Coed Duon	Tai	24.37	Tirwedd, amgylchedd hanesyddol, ecoleg (rhannol)
<b>HOV004</b>	Tir yn Coed-y-Brain House, Aberbargod	Tai	5.90	Ecoleg (ystyriwch safle llai HOV006)
<b>HOV005</b>	Tir yn 60 Heol Abernant, Markham	Tai / Twristiaeth	0.95	Ystyriwch safle llai drwy adolygu ffiniau'r anheddiad
<b>HOV007</b>	Tir yn Coed-y-Brain House (safle 3),Aberbargod	Tai	2.00	Ffin afresymegol - defnyddiwch ffin HOV006
<b>HOV009</b>	Tir yn Hen Dy'r Orsaf, Rhymni	Safle Sipsiwn awdurdodedig	0.33	Yn aros am benderfyniad apêl
<b>HOV010</b>	Tir yn Heol Abernant, Markham	Tai	2.60	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>HOV013</b>	Tir yn Fferm Gelli-wen, Markham	Maes gwerysilla	4.27	Cynnig ar gyfer maes gwerysilla, pryderon o ran tirwedd, eir i'r afael drwy'r broses ymgeisio
<b>HOV017</b>	Tir i'r dwyrain Brynhafryd, Pontlotyn	Tai	0.99	Ecoleg
<b>RNC002</b>	Tir yn Gelli-unig Place, Pont-y-waun	Tai	2.21	Mynediad, Ecoleg
<b>RNC006</b>	Hen randiroedd, Wattsville	Tai	0.80	Gorchmynion Cadw Coed, Mynediad
<b>RNC012</b>	Fferm Penyfan, Risca Road (Safle 2), Rhisga	Tai	3.98	Safle dyblyg (gweler RNC011)
<b>RNC013</b>	Glanhowy Road, Wyllie	Tai	0.81	Ecoleg (coetir)
<b>RNC014</b>	Tir i'r de o'r Llannerch, Wyllie	Tai	1.18	Ecoleg (coetir, rhan o Barc Gwledig)
<b>RNC016</b>	Tir i'r gorllewin o Pen-y-Cwarel Road, Wyllie	Tai	5.91	Ecoleg, tirwedd, mynediad
<b>RNC017</b>	Tir yn Snowdon Close, Rhisga	Tai	1.38	Ecoleg (coridor bywyd gwyllt)
<b>RNC019</b>	Tir i'r de o Heol y Celyn (gorllewin), Rhisga	Tai	0.87	Man pwysig o ofod agored

Crynodeb o'r Asesiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol  
Medi 2022

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Ardal y Safle</b>	<b>Cyfiawnhad o ran dim ystyriaeth bellach</b>
<b>RNC020</b>	Tir i'r de o Heol y Celyn (dwyrain), Rhisga	Tai	0.84	Man pwysig o ofod agored
<b>RNC021</b>	Tir yn Tynewydd Park, Rhisga	Tai	3.38	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>RNC022</b>	Tir yn Ty Darren, Rhisga	Tai	0.68	Eisoës wedi'i gynnwys yn y cyflenwad sydd wedi'i ymrwymo
<b>RNC026</b>	Fferm Twyn Gwyn, Trecelyn	Ynni Adnewyddadwy/Tai	29.59	Dim ond ynni adnewyddadwy sy'n cael ei ystyried - effaith ar Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur
<b>RNC027</b>	Tir yng nghefn fflatiau Heol y Celyn, Rhisga	Tai	2.16	Eisoës o fewn ffin anheddiad, ecoleg
<b>YM001</b>	Tir i'r gogledd o Cae Ysgubor, Cefn Hengoed	Tai	3.78	Ecoleg
<b>YM002</b>	Tir i'r gogledd o Brooklands, Nelson	Tai	0.83	Eisoës wedi'i gynnwys yn y cyflenwad sydd wedi'i ymrwymo
<b>YM003</b>	Tir i'r gorllewin o Bwl Road, Nelson	Tai	0.95	Mynediad, ecoleg
<b>YM006</b>	Tir yn Caerphilly Road, Tredomen	Cyflogaeth	4.32	Ecoleg
<b>YM007</b>	Tir i'r de o Gelligaer Court, Penpedairheol	Tai	0.84	Ecoleg, tirwedd, diffyg llwybrau troed
<b>YM008</b>	Tir yn Mountain Way, Nelson	Tai	4.56	Mynediad
<b>YM010</b>	Tir yn Fferm Rhos, Penpedairheol	Tai	13.90	Tirwedd hanesyddol
<b>YM014</b>	Fferm Gelligaer Uchaf, Gelligaer Road (Safle 1), Gelligaer	Gwastraff ac ailgylchu gyda chynhyrchu ynni adnewyddadwy	12.30	Effaith weledol
<b>YM016</b>	Fferm Gelligaer Uchaf, Gelligaer Road (Safle 2), Gelligaer	Chwarel	29.88	Tirwedd
<b>YM018</b>	Tir yn Forest Avenue, Cefn Hengoed	Tai	1.71	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>YM019</b>	Tir yn Hengoed Avenue, Cefn Hengoed	Tai	10.35	Ecoleg (Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur)
<b>YM021</b>	Tir i'r dwyrain o Maes-yr-Onen, Maes Mafon, Nelson	Tai	0.89	Draenio, man agored cyhoeddus pwysig

Crynodeb o'r Asesiad Drafft o Safleoedd Ymgeisiol  
Medi 2022

<b>Cyfeirnod safle</b>	<b>Enw'r safle</b>	<b>Defnydd arfaethedig y Safle Ymgeisiol</b>	<b>Ardal y Safle</b>	<b>Cyfiawnhad o ran dim ystyriaeth bellach</b>
<b>YM022</b>	Tir i'r de o Gwaun-fro, Penpedairheol	Tai	10.35	Tirwedd hanesyddol
<b>YM024</b>	Tir i'r gorllewin o West Road, Penallta	Tai	3.29	Ecoleg
<b>YM025</b>	Tir i'r dwyrain o Penybryn Terrace, Pen-y-bryn	Tai	0.62	Ecoleg

## 4. Camau nesaf yr asesu

- 4.1 Os oes unrhyw un o'r cwestiynau yn y crynodeb o'r asesiad wedi sgorio'n llwyd, bydd angen rhagor o wybodaeth cyn y gellir gwneud penderfyniad terfynol ar addasrwydd y safle. Bydd rhestr lawn o'r wybodaeth sydd ei hangen yn cael ei darparu i'r cynigydd safle ymgeisiol. Bydd y gofynion yn safle-benodol ond maent yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol megis arolygon sŵn, arolygon Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, Asesiadau Trafnidiaeth, Asesiadau Risg Cloddio Glo neu Arolygon Dosbarthiad Tir Amaethyddol. Bydd cynigydd y safle hefyd yn cael eu cynghori o ba wybodaeth fyddai ei hangen i gefnogi cais cynllunio, pe bai'r safle'n cael ei ddyrannu yn y dyfodol. Cynigydd y safle sy'n gyfrifol am wneud gwaith technegol perthnasol i gefnogi cynnwys safle yn y cynllun, gan gynnwys costau ariannol.
- 4.2 Bydd yn ofynnol hefyd i gynigydd y safle gyflwyno Asesiad Hyfywedd er mwyn dangos eu bod yn hyfyw ac yn gyflawnadwy. Dylai cynigydd safle gyfeirio at y Nodyn Canllawiau Hyfywedd, sy'n esbonio'r broses.
- 4.3 Os na ddarperir y wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani, gan gynnwys yr Asesiad Hyfywedd, ni fydd modd dangos bod y safle'n bosib ei gyflawni **ac ni fydd y safle yn cael ei ystyried ymhellach yn y broses.**
- 4.4 Fel rhan o gam nesaf y broses (Cyfnod 2B), bydd y Cyngor yn ymgynghori ag asiantaethau statudol megis Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Yr Awdurdod Glo, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent, Western Power a'r Grid Cenedlaethol ar y safleoedd hynny yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer ystyriaeth bellach yn dilyn asesiad manwl Cam 2A.
- 4.5 Gofynnir i ddarparwyr seilwaith asesu'r safleoedd a nodi unrhyw faterion posibl a pha fesurau lliniaru sy'n debygol o fod yn angenrheidiol er mwyn goresgyn y materion hyn. Os na ellir mynd i'r afael â'r mater seilwaith, neu byddai'r gost o fynd i'r afael ag ef yn effeithio'n sylweddol ar hyfywedd a chyflawnadwyedd safle, yna ni fydd y safle'n cael ei ystyried ymhellach.
- 4.6 Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, safleoedd a ddyrannwyd yn yr 2il Gynllun Datblygu Lleol Amnewid fydd y rhai y gellir eu dangos i fod yn hyfyw ac yn gyflawnadwy. Bydd y dewis o'r safle yn dilyn y dilyniant chwilio a nodwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi y dylid blaenoriaethu safleoedd tir a/neu safleoedd sydd wedi'u tanddefnyddio'n flaenorol. Bydd dewis safleoedd hefyd yn ystyried ffocws y Strategaeth Ddewsiol sy'n ceisio cyfeirio'r datblygiad at y safleoedd hynny sydd agosaf at nodau trafndiaeth a chanol trefi, gan adlewyrchu blaenoriaethau polisi Cymru'r Dyfodol, a bydd maint y datblygiad a gynigir ym mhob anheddiad yn dibynnu ar eu safle yn yr hierarchaeth aneddiadau fel y'i hysbysir gan Gymru'r Dyfodol a'r Dadansoddiad Swyddogaethol.

## 5. Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol Ychwanegol

- 5.1 Yn unol â Phapur Methodoleg Safle'r Ymgeisiol, mae cyfle i safleoedd ymgeisiol newydd gael eu cyflwyno fel rhan o'r ymgynghoriad ar Strategaeth Ddewsiol. Bydd angen i unrhyw safleoedd newydd a gyflwynir gwblhau'r ffurflen gyflwyno'r safle yn llawn a darparu'r wybodaeth allweddol ganlynol fel isafswm:
- Aseiad ar gyfer potensial y safle i gymhwyso'n gyfan gwbl neu'n rhannol, fel Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur gan ddefnyddio'r 'Canllawiau ar gyfer y Broses o Ddewis Safleoedd Bywyd Gwyllt yn Ne Ddwyrain Cymru'.
  - Aseiad Hyfywedd a baratowyd yn unol â'r Nodyn Canllawiau Hyfywedd
- 5.2 Os oes unrhyw gyfyngiadau hysbys a allai effeithio ar y gallu i gyflawni'r safle (er enghraifft, mynediad, coed, materion amwynder oherwydd defnydd tir cyfagos, risg etifeddiaeth cloddio glo ac ati), cynghorir cynigwyr y safle i gyflwyno'r wybodaeth berthnasol i ddangos hynny. gellir lliniaru'r cyfyngiadau hyn fel rhan o'u cyflwyniad safle ymgeisiol, gan mai dim ond safleoedd sy'n gallu dangos y gellir eu cyflawni y gellir eu dwyn ymlaen.